



Ymlaen HWB Caernarfon 2021-26

Mae cyfarwyddwyr HWB Caernarfon yn falch iawn o gyhoeddi bod busnesau Caernarfon wedi pleidleisio O BLAID tymor newydd pum mlynedd sydd yn sicrhau bod ardal gwella busnes Caernarfon yn gallu parhau a datblygu. Pleidleisiodd 65% o'r gymuned fusnes yng Nghaernarfon o blaid a hoffem ddiolch am y gefnogaeth, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd a cythryblus hwn.

Bydd y tymor newydd yn canolbwyntio ar weithredu a gwireddu y prosiectau a nodir yn y [Cynllun Pum Mlynedd](#). Byddwn yn ymgymryd â gweithgarwch o dan bum prif thema:

Yn Falch o Hyrwyddo

Hyrwyddo Caernarfon yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol a thu hwnt drwy ymgyrchoedd digidol, print ac yn y cyfryngau. Mi fyddwn hefyd yn datblygu rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau fydd yn rhan o strategaeth denu mwy o bobl i'r dref.

Glân, Gwyrdd ac Eco Gyfeillgar

Cydweithio gyda'r cyngor tref a sir i wella darpariaeth glanhau y dref. Bydd mwy o blanhigion/blodau tymhorol a byddwn yn mynd i'r afael â llecynnau blêr ogwmpas y dref. Mae hyrwyddo ail-gylchu ac ail-ddefnyddio yn bwysig iawn i ni yn ogystal â hyrwyddo teithio mwy cynaliadwy.

Man "Diogel"

Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dref drwy weithio mewn partneriaeth â'r heddlu, awdurdodau lleol, ysgolion a grwpiau eraill. Mae hyn hefyd yn cynnwys edrych ar wella darpariaeth a monitro CCTV y dref.

Cryfach Gyda'n Gilydd

Byddwn yn cyflogi rheolwr prosiect perpasol i redeg a rheoli prosiectau ac ymgysylltu rheolaidd gyda'r busnesau yn y dref fel bod deialog cyson a chreu llais cryfach cydweithredol fel un tref.

Denu Buddsoddiad Allanol i Gaernarfon

Bydd HWB Caernarfon yn gallu ymgeisio am gyfleoedd cyllido (drwy grantiau) ychwanegol i ariannu prosiectau/ymgyrchoedd penodol.

Mae popeth rydym yn ei wneud gyda pwrpas syml iawn, sef gwella Caernarfon a bod ein busnesau ac y gymuned yn ffynnu.

Dywedodd Edgar Owen, Cadeirydd HWB Caernarfon:

'Rydym wrth ein boddau o'r gefnogaeth gan gymuned fusnes Caernarfon, mwy fyth oherwydd y cyfnod ansicr rydym wedi bod yn byw ynnddi yn ystod y flwyddyn ddwythaf. Wrth symud ymlaen, rydym yn y broses o groesawu cyfarwyddwyr newydd i'r bwrdd ac yn edrych ymlaen i weireddu yr hyn sydd yn y cynllun busnes dros y bum mlynedd nesaf sydd am wella ein tref unigryw".

Am fwy o fanylion, cysylltwch â ni drwy ebostio post@hwbcarnarfon.cymru

Diolch unwaith eto am y gefnogaeth ac edrychwn ymlaen cydweithio a datblygu'r dref i sicrhau bod Caernarfon yn parhau'n lleoliad hyfyw, lle gall busnesau ffynnu, ac i greu amgylchedd croesawgar a diogel sy'n ateb gofynion y gymuned leol ac ymwelwyr â'r dref. Gyda'n gilydd, rydym yn gryfach – ymlaen Caernarfon.